OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1789 (Cy. 252)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A487 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Hydref 2015* |
| *Yn dod i rym* | *18 Hydref 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A40) a Chefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Hydref 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A40 a'r A487 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 18 Hydref 2015 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd/cefnffyrdd" ("*the length(s) of the trunk road(s)*") yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A40 a'r A487 yn Abergwaun yn Sir

Benfro a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Hydref 2015

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1

**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Windyhall hyd at ei chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun.

### ATODLEN 2

**Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd**

1) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Windyhall (gan gynnwys ei system gylchu) hyd at ei chyffordd â Chylchfan Parrog (gan gynnwys ei system gylchu).

2) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Windyhall hyd at ei chyffordd â Chylchfan Sgwâr Abergwaun (gan gynnwys ei system gylchu).